Adran 1:
Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad

1.1 Beth yw diogelu?

Rydym wedi dod yn llawer mwy cyfarwydd â'r term "amddiffyn plant" yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac fe dderbynnir yn gyffredinol bod angen polisi amddiffyn plant er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod sut i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a beth i'w wneud os oes gennym bryderon. Heddiw, mae'r term "diogelu" yn cael ei ddefnyddio ac mae'n llawer mwy cynhwysfawr na materion amddiffyn plant yn unig. Mae llawer o'r egwyddorion yr ydym wedi'u dysgu drwy ein gweithdrefnau amddiffyn plant bellach yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn oedolion bregus ac mae ein polisïau a'n harferion wedi ehangu i gynnwys hyn. Mae diogelu yn derm sy'n disgrifio'r swyddogaeth o amddiffyn oedolion a phlant rhag cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso ac mae hefyd yn cynnwys mesurau i rwystro pobl fregus rhag cael eu niweidio yn y lle cyntaf.

Mae'r llyfryn diogelu newydd hwn yn ymateb i'r datblygiadau hyn ynghyd â newidiadau i ddeddfwriaeth sydd wedi ailddiffinio gweithgaredd a reoleiddir.[1]

Mae diogelu bellach yn rhan hanfodol o arferion a threfn lywodraethu pob sefydliad ac yn gyffredinol, mae'n ofynnol i roi polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith er mwyn sicrhau statws elusennol a gwneud ceisiadau am arian a grantiau. Fel eglwysi sy'n ceisio adlewyrchu cymeriad a gorchmynion Iesu, rydym yn dymuno gwneud hyn hyd eithaf ein gallu a gweithredu mewn modd ddilychwin yn ein cymunedau.

Mae diogelu yn cynnwys yr elfennau canlynol, ac fe ymdrinnir â phob un ohonynt yn y llawlyfr hwn.

- Recriwtio gweithwyr a gwirfoddolwyr yn fwy diogel
- Arferion gwaith da
- Adnabod arwyddion o gam-drin pobl fregus a sut i ymateb i bryderon
- Iechyd a diogelwch

1.2 Ynglŷn â'r llawlyfr hwn

Mae'r llawlyfr hwn yn cymryd lle ein polisi amddiffyn plant "Er Mwyn ein Plant". Diwygiwyd a diweddarwyd y polisi i gynnwys oedolion bregus a newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth parthed grwpiau bregus a gwiriadau cofnodion troseddol. Y nod yw cynnig arweiniad clir ac ymarferol i'r rheini sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau gyda grwpiau bregus yn lleol.

Mae'r canllawiau a'r cyngor yn y ddogfen hon yn sail i bolisi mabwysiedig Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer gweithio gyda grwpiau bregus.

Ar ôl derbyn y llawlyfr hwn, rydym yn argymell eich bod yn ymgyfarwyddo â'r cynnwys ac yn gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'ch prosesau a systemau lleol. Dylai'r llawlyfr gael ei ystyried wedyn fel cyfeirlyfr. Bydd diweddariadau yn cael eu hanfon atoch yn ôl yr angen a byddant hefyd ar gael ar wefan y Panel Diogelwch Cydenwadol www.paneldiogelwch.org.uk. Cofiwch hefyd fod swyddogion y panel a'r Ysgrifenyddion Cyffredinol ar gael i'ch cynorthwyo a'ch cefnogi.

Mae **Adran 2** yn cynnwys cyfarwyddyd cam wrth gam ynghylch y broses **recriwtio a dethol** y mae'n rhaid i bob corff sy'n gweithio gyda grwpiau bregus ei dilyn. Nid yw hon yn broses newydd ond yn sgil newidiadau diweddar yn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)[2] mae'n bwysicach fyth bod cyflogwyr

1 Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010, Gorchymyn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Swyddogaethau Craidd) 2012, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

2 Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol bellach wedi uno i ffurfio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bellach, gelwir gwiriadau 'CRB' yn wiriadau 'DBS'.

a chyrff lleol yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ddewis gweithwyr a gwirfoddolwyr yn y lle cyntaf. Nod y broses hon yw gwneud yn siŵr bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau bod ein grwpiau bregus yn derbyn gofal gan unigolion diogel ac addas. Ceir nifer o ffurflenni a rhestrau gwirio yn **Adran 7** a fydd hefyd o gymorth i'ch arwain drwy'r broses.

Yn **Adran 3** ceir rhai canllawiau arfer da o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac eto yn **Adran 7** mae rhai ffurflenni a fydd o gymorth wrth i chi roi'r canllawiau hyn ar waith. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch amddiffyn plant a sut y dylid ymateb os ydych yn amau, neu os ydych yn derbyn gwybodaeth ynghylch sefyllfa o gam-drin.

Yn **Adran 4** ceir canllawiau arfer da o ran gweithio gydag oedolion bregus a gwybodaeth ynghylch achosion o gam-drin oedolion a sut y dylid ymateb os ydych yn amau, neu os ydych yn derbyn gwybodaeth ynghylch sefyllfa o gam-drin.

Mae **Adran 5** yn edrych ar ddulliau o gefnogi'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin ac mae'n cynnwys rhai enwau/rhifau cyswllt a gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae **Adran 6** yn cynnwys rhifau cyswllt defnyddiol a rhagor o wybodaeth ac mae **Adran 7** yn cynnwys yr holl ffurflenni y cyfeirir atynt yn y llawlyfr hwn. Mae fersiynau electronig o'r rhain hefyd ar gael ar ein gwefan.

1.3 Rôl y panel a'r tri enwad

Sefydlwyd y Panel Diogelwch Cydenwadol yn 2001 pan gyflwynwyd ein polisi amddiffyn plant 'Er Mwyn ein Plant'.

Mae'r Panel yn gwmni cyfyngedig ers 2009 a daw'r cyfarwyddwyr o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru - "y tri enwad".

Rôl y Panel yw cefnogi a chynghori'r tri enwad ynghylch arferion diogelu yng nghyswllt eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus. Gwneir hyn drwy lunio a diweddaru'r polisi diogelu ynghyd
â chynnig hyfforddiant a chymorth i gyrff lleol. Fel corff a gofrestrwyd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae'r Panel yn gyfrifol am brosesu gwiriadau DBS ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr o fewn y tri enwad. Yn 2008 ehangodd i ddod yn 'gorff cysgodol' gan ei alluogi i gynnig gwiriadau datgelu ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau nad ydynt yn aelodau o'r tri enwad. Mae'r panel yn cyflogi Swyddog Hyfforddiant a Diogelwch a Swyddog Gweinyddol.

Mae swyddogion y Panel yn trefnu cyfarfodydd panel i drafod materion yn ymwneud ag arferion a pholisi diogelu ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch datgeliadau 'aneglur'. Mae cynrychiolwyr o'r tri enwad yn aelodau o'r paneli hyn ac fe'u enwebwyd yn rhinwedd eu harbenigedd, diddordebau neu gefndir proffesiynol. Mae'r panel yn glynu wrth god cyfrinachedd cadarn.

1.4 Datganiad o Fwriad

Mae'n ddyletswydd ar aelodau o'r gymuned eglwysig[3] i sicrhau diogelwch plant ac oedolion bregus ym mhob gweithgaredd.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithredu ei pholisi a'i gweithdrefnau ynghylch amddiffyn plant ac oedolion bregus.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i gydymffurfio â gofynion statudol ynghylch dewis a phenodi unigolion i wneud gwaith cyflogedig neu wirfoddol.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i ddarparu system lle bydd y rheini sy'n gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn derbyn hyfforddiant a chymorth.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i adnabod sefyllfaoedd lle gallai plant a phobl ifanc ac oedolion bregus gael eu niweidio yn ystod gweithgareddau'r eglwys.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i herio unrhyw gamddefnydd o awdurdod gan unigolyn.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i wrando ar blant ac oedolion bregus ac ymateb yn sensitif ac yn unol â'i pholisi a chanllawiau.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i ymateb ar unwaith pan dynnir ei sylw at amheuaeth o gam-drin, ac i gydweithredu â'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu os bydd ymchwiliad i'r mater. Hefyd, mae'n ymrwymo i rannu gwybodaeth yn gyfrifol er mwyn hwyluso ymchwiliad effeithiol.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i'r rheini sy'n cael eu cam-drin neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i droseddwyr neu bobl a amheuir o fod yn droseddwyr, neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithio gyda Swyddog Hyfforddiant a Diogelwch y Panel, a/neu Ysgrifenyddion Cyffredinol y tri enwad, a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i eglwysi lleol ynghylch diogelu ac amddiffyn plant. Bydd yr eglwys yn cydweithredu â'r rheini sy'n cael y dasg o ymateb i achosion sy'n destun pryder a chasglu gwybodaeth yn eu cylch, o fewn y tri enwad.

Mae'r eglwys yn ymrwymo i gefnogi ac annog rhieni a gofalwyr wrth iddynt ofalu am eu plant.

3 Mae'r term 'eglwys' yn cynnwys y fframweithiau enwadol canolog ac eglwysi lleol